



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

RHANNU HANES LLEOL YN DDIGIDOL

Liz Rawlings, David Llewellyn ac Angela Jones, Archifyddion ac Addysgwyr Proffesiynol, Grwpiau Hanes Pum Cymuned Sir Benfro

Mae gan gymdeithasau treftadaeth a hanes unigol yng Nghymru lawer o gasgliadau unigryw a hanesyddol bwysig. Cafodd y prosiect peilot hwn ei greu i sicrhau bod yr adnoddau gwerthfawr hyn yn cael eu rhannu â'r cyhoedd.



[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.

Sefydlwyd grŵp bach yn cynnwys pum cymdeithas hanes i ddatblygu'r cysyniad o gyflwyno eu hadnoddau ar lwyfan ehangach. Defnyddir treftadaeth i hybu ymdeimlad o berthyn, cynhwysiad cymdeithasol a lles unigol. Gwneir hyn drwy gynyddu'r sylfaen wybodaeth, meithrin hunaniaeth y cymunedau a hwyluso mynediad i adnoddau dysgu ysbrydoledig lleol.

Mae'r ddau Archifydd Digidol yn gweithio i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ar gael yn cael ei chofnodi i safon broffesiynol. Defnyddir y system Dublin Core sy'n gydnaws â llawer o Archifau Cymreig ac sy'n dangos ymhellach fod y prosiect wedi'i greu a'i ddatblygu ar lefel uchel o soffistigeiddrwydd. Y prif amcan felly oedd creu mynediad o bob rhan o'r byd i hanes y Pum Cymuned yn Sir Benfro, gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i gatalogio a chofnodi eu casgliadau'n ddigidol. Roedd hyn yn cynnwys creu gwefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol i sicrhau y gall pawb gyrchu'r wybodaeth hon yn glir, yn gywir ac ar unrhyw adeg. Y nod yn y pen draw felly yw sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i gymaint o bobl â phosibl – myfyrwyr, haneswyr, ymchwilwyr, a chyddion. Bydd ffrwyth y gwaith ar gael ar wefan Casgliad y Werin Cymru hefyd.

Drwy ddefnyddio amrywiaeth o dechnolegau digidol a rhwydweithio'n agos ag ystod eang o bobl rydym yn gallu rhannu ein hanes ni â'r byd yn hyderus ac mewn ffordd ddiddorol. Mae hefyd botensial ar gyfer cyrchu grantiau ychwanegol i ddatblygu cynlluniau o'r fath mewn cymunedau eraill gan fod y prosiect yn dangos bod modd iddynt reoli eu diwylliant a'u threftadaeth archifol yn llwyddiannus ar lefel broffesiynol a hefyd rannu'r wybodaeth ar raddfa fyd-eang drwy fanteisio ar dechnoleg.

Bywgraffiad

Staff proffesiynol sy'n arwain prosiect peilot arloesol yn Sir Benfro yw'r cyfranwyr, i gyd â diddordeb angerddol mewn hanes.

- David Llewelyn B.A. (Anrh) A.A.P. Dip
- Angela Jones B.A. P.G.C.E. N.P.Q.H.
- Liz Rawlings M.Ed Diploma Uwch mewn Hanes Lleol

Gweithwyr proffesiynol yw'r tri awdur – un archifydd a dau addysgwr – ac maen nhw i gyd wedi ymrwymo i sicrhau'r canlyniad gorau i'r pum cymuned. Dyma'r tro cyntaf i'r syniad hwn gael ei fabwysiadu yng Nghymru neu yn unman arall, ac mae'r awduron yn awyddus i'r system fod mor eglur a chynhwysol â phosibl.